Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**MEHEFIN 2025**

**Croeso** i rifyn mis Mehefin o'r Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.
Y mis hwn, rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer y Bwrdd Gweinidogol a fydd yn cael ei gynnal ar 2 Gorffennaf. Byddwn yn adrodd wrth y Bwrdd am dri o'r ceisiadau gan Weinidogion o'r cyfarfod ym mis Ionawr ynghylch y materion a ganlyn:

- Rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun ADUSau
- Adolygiad o ADUS - blwyddyn un
- Themâu dysgu o ran iechyd meddwl

Gofynnwn ichi barhau i rannu eich barn, eich sylwadau a'ch syniadau fel y gallwn ni sicrhau bod y Bwletin mor berthnasol a defnyddiol â phosibl.

**CADUSau wedi'u comisiynu**

Nid oes ADUSau wedi'u comisiynu y mis hwn, felly mae cyfanswm yr ADUSau sydd wedi'u comisiynu ers 1 Hydref yn parhau i fod yn **22.**

Ymarfer Plant: 13
Ymarfer Oedolion: 3
Yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 4
Yn ymwneud ag Ymarfer Oedolion a Cham-drin Domestig: 1
Lladdiad Iechyd Meddwl: 1

## Newyddion

Mae'r model ADUS yn parhau i ennyn diddordeb dros y ffin yn Lloegr. Y mis hwn, gwnaeth Arweinydd Ymgysylltu Strategol ADUS gyfarfod â chydweithwyr o Swyddfa'r Maer a Heddlu Manceinion Fwyaf, yn unol â'u cais, i drafod datblygiad yr ADUS yng Nghymru. Rydym bob amser wedi bod yn agored i rannu'r gwaith hwn a byddwn yn parhau i wneud hynny.

## Storfa Ddiogelu Cymru

Caiff Adolygwyr a Chadeiryddion eu hatgoffa, yn ystod cyfnod profi estynedig y cynllun peilot hwn, y gellir cael gafael ar wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Storfa drwy ddefnyddio ffurflen gais a gyflwynir i Dîm Storfa Ddiogelu Cymru drwy'r Hwb Cydgysylltu. Mae'r ffurflen ar gael gan Unedau Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Bydd Adolygwyr a Chadeiryddion y mae ADUSau wedi'u dyrannu iddynt ar hyn o bryd yn dechrau ar waith profi'r Storfa o bell ddechrau mis Gorffennaf. Bydd mynediad llawn i'r Storfa ar gael yn yr hydref.

Dros yr haf, bydd Prifysgol Caerdydd yn cynnal prosiect ar effeithiau o'r enw 'Casglu tystiolaeth ar sut y mae Storfa Ddiogelu Cymru yn effeithio ar arferion adolygiadau diogelu'. Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn bwysig o ran llywio arferion yn y dyfodol a byddem yn annog pawb sy'n cael eu gwahodd i ymwneud â'r prosiect i wneud hynny.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

## Hyfforddiant

Mae trafodaethau yn parhau o ran cynnwys ymwybyddiaeth o ADUS ar gyrsiau gradd Gwaith Cymdeithasol, Plismona a Nyrsio. Nod hyn yw helpu i ymgorffori diwylliant o ddysgu a myfyrio mewn ymarfer yn gynnar yng ngyrfaoedd gweithwyr proffesiynol.

## Adborth o'r Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth

Mae'r adborth o'r digwyddiad lledaenu gwybodaeth a gynhaliwyd yn Llandudno ym mis Mai 2025 wedi bod yn gadarnhaol iawn. Nododd 84% o'r ymatebwyr fod y digwyddiad yn ardderchog a nododd 94% ohonynt eu bod yn 'fodlon iawn' â'r siaradwyr / cyflwyniadau. Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn ei hoffi fwyaf am y digwyddiad, dyma oedd y themâu mwyaf cyffredin:

- Profiad, gwybodaeth ac amrywiaeth y siaradwyr
- Y cyfle i rwydweithio
- Myfyrdodau a thrafodaethau gonest yn ystod y sesiynau trafod

Dywedodd 100% o'r ymatebwyr y byddent yn mynd i'r digwyddiad eto yn y dyfodol.